OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 3238

## Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2003

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1997" ("*the 1997 Regulations*") yw Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 1997(**1**)).

**Diwygio Rheoliadau 1997**

**3.** Mae Rheoliadau 1997 yn cael eu diwygio, mewn perthynas â Chymru, yn unol â'r Atodlen.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*D. Elis-Thomas*
9 Rhagfyr 2003 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) O.S. 1997/646, fel y'i diwygiwyd mewn perthynas â Chymru a Lloegr gan O.S. 1999/1361, O.S. 1999/3447 ac O.S. 2000/3775, ac mewn perthynas â Chymru gan O.S. 2002/813 (Cy.93). Diwygiwyd Rheoliadau 1997 hefyd, mewn perthynas â Lloegr, gan O.S. 2002/732.

(**2**) 1998 p.38.